**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 2)**

**Y Bil Cynllunio a Seilwaith**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol (LCM) hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru[1] os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Cynllunio a Seilwaith (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin, Senedd y DU ar 11 Mawrth 2025. Gosodais LCM ar 26 Mawrth 2025.

3. Cyflwynodd Llywodraeth y DU 17 o welliannau ar 23 Ebrill a 22 gwelliant ar 24 Ebrill i'w hystyried ym Mhwyllgor Tŷ'r Cyffredin. Disgwylir adroddiad ganddo i'r Tŷ erbyn 26 Mai 2025.

4. Mae tri o'r gwelliannau hyn yn gwneud darpariaethau sy'n ymwneud â materion datganoledig, ac fe'u disgrifir ym mharagraffau 11 i 35 isod.

5. Mae'r Bil, fel y'i diwygiwyd yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin, i'w weld yn: Y Bil Cynllunio a Seilwaith - Biliau Seneddol - Senedd y DU

## Amcanion y Polisi

6. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw cyflymu a symleiddio'r broses ar gyfer darparu cartrefi a seilwaith critigol newydd, cefnogi i gyrraedd cerrig milltir Cynllun Newid y llywodraeth o adeiladu 1.5 miliwn o gartrefi diogel a gweddus yn Lloegr a chyflymu 150 o benderfyniadau cynllunio ar brosiectau seilwaith economaidd mawr erbyn diwedd Senedd hon y DU. Bydd hefyd yn helpu i wireddu targed Pŵer Glân 2030 y llywodraeth trwy sicrhau bod prosiectau ynni glân yn cael eu hadeiladu cyn gynted ag y medrir. Er mwyn cyflawni hyn, bydd y Bil yn:

   a. Darparu ar gyfer proses gyflymach a mwy pendant ar gyfer cydsynio prosiectau seilwaith critigol a chryfhau'r fframwaith polisi o amgylch Datganiadau Polisi Cenedlaethol.

   b. Rhoi system fwy effeithlon a rhagweladwy ar waith ar gyfer prosiectau seilwaith ynni, gan gynnwys:
      i. Diwygiadau i ddiweddaru'r broses ar gyfer cysylltu â'r grid trydan;
      ii. Sefydlu cynllun trothwyon uchaf ac isaf newydd i ddefnyddio adnoddau storio trydan cyfnod hir;

[1] Yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, nodwch ein bod, wrth gyfeirio at y ddeddfwrfa yng Nghymru, yn defnyddio "Senedd Cymru", ac wedyn "y Senedd", oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall.

iii. Diwygio'r drefn ar gyfer cydsynio seilwaith trydan yn yr Alban, er mwyn lleihau agweddau aneffeithiol ar y system a mabwysiadu arferion gorau;
iv. Sefydlu cynllun gostwng biliau i'r rheini sy'n byw agosaf at seilwaith newydd trawsyrru trydan; a
v. Diweddaru proses ar gyfer trawsyrru trydan o'r môr, trwy estyn cyfnod cymal comisiynu'r cynhyrchydd.

c. Symleiddio'r drefn ar gyfer cynnal prosiectau seilwaith trafnidiaeth a'i gwneud yn fwy effeithlon, gan gynnwys:

i. Newid y broses o gymeradwyo gwaith stryd er mwyn gallu gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan yn gyflymach;
ii. Diwygiadau amrywiol i Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992 a Deddf Priffyrdd 1980 i symleiddio prosesau a chyflymu prosiectau; ac
iii. Adennill costau Gorchmynion Adolygu Harbyrau yn well.

d. Cyflwyno dull mwy strategol o adfer natur mewn perthynas â datblygu, gan alluogi datblygwyr i ariannu'r gwaith adfer yn fwy effeithlon trwy Gronfa Adfer Natur newydd, tra'n sicrhau canlyniadau gwell i'r amgylchedd.

e. Gwneud penderfyniadau'n well a gwella sicrwydd gan wella capasiti awdurdodau cynllunio lleol trwy eu galluogi i adennill eu costau trwy ffioedd cynllunio.

f. Rhyddhau tir ar gyfer buddsoddiadau mawr, a sicrhau gwerth i'r cyhoedd, trwy ddiwygio'r broses gorchmynion prynu gorfodol a rheolau iawndal.

g. Cryfhau pwerau corfforaethau datblygu i ddarparu seilwaith, gan gynnwys trafnidiaeth, ac egluro a diweddaru cylchoedd gwaith ac amcanion corfforaethau datblygu.

h. Darparu ar gyfer cyflwyno system gynllunio strategol yn Lloegr.

**Crynodeb o'r Bil**

7. Darparwyd crynodeb o'r Bil yn yr LCM cyntaf a osodwyd ar 26 Mawrth 2025, sy'n parhau'n gywir.

**Y diweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r LCM cyntaf**

8. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi trafod yn rheolaidd wrth i'r Bil gael ei ddatblygu ac mae'r cysylltiad hwnnw'n parhau ar lefelau Gweinidogion a swyddogion yn ôl y gofyn ynghylch y tri chymal y cododd yr LCM cyntaf bryderon amdanynt, er mwyn sicrhau bod y darpariaethau yn gweithio i Gymru.

9. Mae yna hefyd gynigion yn y Bil ar gyfer Cronfa Adfer Natur y telir amdani gan ddatblygwyr. Bydd yn ddibynnol ar gael cynllun cyflawni amgylcheddol gan Natural England i fynd i'r afael â heriau amgylcheddol penodol gan gynnwys y gofyn i ddatblygiadau niwtraleiddio maetholion ffosffad a nitrad. Ar hyn o bryd mae'r pwerau hyn yn berthnasol i Loegr yn unig.

**Darpariaethau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i'r Bil i'w hystyried yng Nghyfnod y Pwyllgor y bydd angen cydsyniad ar eu cyfer**

10. Mae Llywodraeth Cymru wedi asesu'r gwelliannau canlynol a barnu bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd arnynt:

    - Gov NC43 sy'n ychwanegu cymal newydd – "*Changes to, and revocation of development consent orders"*
    - Gov NC44 sy'n ychwanegu cymal newydd – "*Applications for development consent: removal of certain pre-application requirements"*
    - Gov NC45 (a), (b) ac (e) sy'n ychwanegu cymal newydd – *"Applications for development consent: changes related to section (Applications for development consent: removal of certain pre-application requirements)"*

11. Yn dilyn dadansoddi'r gwelliannau newydd hyn, credaf fod angen yr LCM atodol hwn am y rheswm a nodir paragraffau 12 i 34 isod.

<u>Gov NC44(a) (b) a (e) –</u> *Applications for development consent: removal of certain pre-application requirements* <u>drafft newydd</u>

12. Cyflwynwyd cymal newydd Gov NC44 ar 24 Ebrill 2025 ac mae'n hepgor ystod o adrannau o Ddeddf Cynllunio 2008 ("Deddf 2008").

13. Yn benodol, mae'r ddarpariaeth yn cynnig dileu:

    (a) adran 42 (dyletswydd i ymgynghori);
    (b) adran 43 (awdurdodau lleol at ddibenion adran 42(1)(b));
    (c) adran 44 (categorïau at ddibenion adran 42(1)(d));
    (d) adran 45 (amserlen ar gyfer ymgynghori o dan adran 42);
    (e) adran 47 (dyletswydd i ymgynghori â'r gymuned leol);
    (f) adran 49 (dyletswydd i ystyried ymatebion i ymgynghori a chyhoeddusrwydd).

14. Ar hyn o bryd mae'r adrannau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n bwriadu gwneud cais am gydsyniad datblygu ymgynghori â phobl benodol am y cais arfaethedig, gan gynnwys cyrff rhagnodedig, awdurdodau lleol, y gymuned leol a phobl sydd â budd yn y tir dan sylw. Mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi'u nodi ar wyneb y Bil fel cyrff y mae'n rhaid ymgynghori â nhw os yw'r datblygiad yn eu hardal. Mae Gweinidogion Cymru ac Awdurdodau Datganoledig eraill Cymru hefyd yn cael eu henwi mewn Rheoliadau a wnaed o dan adran 42 o Ddeddf 2008.

15. Yn benodol, mae'r gwelliant yn cynnig dileu'r ddyletswydd i ymgynghori â phobl benodol o dan adran 42 (cymal NC44(a)), gan gynnwys pobl a ragnodir o dan adran 42(1)(a) o Ddeddf 2008. Byddai hynny'n cynnwys Gweinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus Cymru fel Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r gofyniad o dan adran 42(1)(b) i ymgynghori â phob awdurdod lleol os yw'r tir yn ei ardal o dan adran 43 (cymal NC44(b)) hefyd wedi'i ddileu. Mae'r awdurdod lleol o dan adran 43 (yn cynnwys yr awdurdod lleol lle mae'r datblygiad wedi'i leoli, a fyddai'n cynnwys Awdurdodau Lleol Cymru. Mae'r gofyniad i ymgeisydd baratoi datganiad sy'n nodi sut mae'r ceisydd yn bwriadu ymgynghori â phob awdurdod lleol o fewn adran 43(1) hefyd wedi'i ddileu (cymal NC44(e)). Mae Gweinidogion Cymru ac awdurdodau datganoledig eraill Cymru hefyd yn cael eu henwi yn y Rheoliadau a wneir o dan adran 42 o Ddeddf 2008. Felly, bydd dirymu'r adrannau hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar swyddogaethau Gweinidogion Cymru ac Awdurdodau Datganoledig Cymru.

Gov NC45 – Ceisiadau am gydsyniad datblygu: newidiadau'n ymwneud ag adran (*Applications for development consent: removal of certain pre-application requirements*) - drafftio newydd

16. Cyflwynwyd cymal newydd Gov NC45 ar 24 Ebrill ac mae'n gwneud newidiadau sy'n gysylltiedig â hepgor y gofynion ymgynghori cyn ymgeisio mewn perthynas â Gov NC44.

17. Mae'r gwelliant yn is-adran (5) yn dileu ac yn cymryd lle adran 46 (dyletswydd i hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol am y cais arfaethedig) o Ddeddf 2008. Mae'r adran newydd a gynigir yn dileu'r gofyniad i hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol am gais arfaethedig ac yn rhoi yn ei le ofyniad i hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol *a* phob awdurdod lleol lletyol. Diffinnir awdurdod lleol fel "host local authority" os yw'r tir yn ardal yr awdurdod ac yng Nghymru bydd awdurdod lleol yn cynnwys cyngor sir, neu gyngor bwrdeistref sirol. O'r herwydd, bydd awdurdodau lleol yn cael gwybodaeth benodol fel y nodir yn yr adran newydd a gynigir 1(C) i'w mewnosod yn Neddf 2008 a hefyd mewn Rheoliadau. Yn ogystal, hepgorir y gofyniad i'r ymgeisydd roi'r wybodaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol cyn dechrau ymgynghori o dan adran 42 o Ddeddf 2008.

18. Mae effaith y gwelliannau hyn yn rhoi swyddogaeth newydd i'r awdurdod cynllunio lleol a fydd yn derbyn y wybodaeth a nodir.

19. Mae'r gwelliant yn is-adran (6) o Gov NC45 yn diwygio adran 48 (dyletswydd i roi cyhoeddusrwydd) o Ddeddf 2008. Mae is-adran (1) o adran 46 yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd roi cyhoeddusrwydd i'r cais arfaethedig. Mae is-adran (2) yn darparu bod yn rhaid i Reoliadau a wneir at ddibenion is-adran (1) wneud darpariaeth bod y cyhoeddusrwydd yn cynnwys dyddiad cau i'r ymgeisydd dderbyn ymatebion i'r cyhoeddusrwydd hwnnw. Mae'r gwelliant a gynigir am weld hepgor is-adran (2) sy'n golygu na fydd angen i Reoliadau nodi dyddiad mwyach i'r ymgeisydd dderbyn ymatebion.

20. Yn ogystal, dileir adran 50 (Canllawiau ynghylch y weithdrefn cyn-ymgeisio) o Ddeddf 2008 a rhoddir darpariaeth newydd yn ei lle o'r enw “Guidance about pre-application steps”. Ar hyn o bryd, rhaid i ymgeiswyr roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas ag unrhyw un o'r adrannau yn Rhan 5, Pennod 2 o Ddeddf 2008 – Y Weithdrefn Cyn-ymgeisio. Mae'r gwelliant a gynigir yn dileu hynny ac yn rhoi yn ei le ofyniad i roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol i'w cynorthwyo i gydymffurfio ag adran 48 (dyletswydd i roi cyhoeddusrwydd) ac mae'n darparu bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyhoeddi canllawiau sy'n nodi'r arfer gorau o ran camau y gallai ymgeiswyr eu cymryd cyn cyflwyno unrhyw geisiadau.

21. Ar ben hynny, mae'r gwelliant yn is-adran (10) o Gov NC45 yn diwygio Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effaith Amgylcheddol) 2017 (O.S. 2017/572) o ganlyniad i welliant NC44 gan ddileu'r gofyniad i ddarparu gwybodaeth benodol i ymgyngoreion.

22. Bydd y darpariaethau a gynigir gan gymal newydd Gov NC45 yn rhoi, dileu neu’n newid swyddogaethau Awdurdodau Datganoledig Cymru. Felly, rwyf o’r farn y bydd y gwelliannau yn sbarduno'r broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol a bydd angen caniatâd y Senedd.

<u>Gwelliant Gov NC43 - "*Changes to, and revocation of development consent orders”*(drafftio newydd)</u>

23. Cyflwynwyd y gwelliant hwn ar 24 Ebrill 2025 ac mae'n cynnig diwygio Atodlen 6 o Ddeddf 2008, sy'n ymwneud â newid a dirymu gorchmynion sy'n rhoi cydsyniad datblygu.

24. Bydd y gwelliant a gynigir yn hepgor paragraff 2 o Atodlen 6 i Ddeddf 2008. Effaith hyn fydd diddymu'r weithdrefn ar gyfer gwneud newidiadau ansylweddol i orchmynion cydsyniad datblygu (DCOs) a roddir o dan y Ddeddf honno.

25. Mae Gwelliant Gov NC43 hefyd yn gwneud newidiadau canlyniadol i Atodlen 6 i Ddeddf 2008, er mwyn adlewyrchu dileu paragraff 2. Mae is-adran (4) o Gov NC43 yn diwygio paragraff (4) o Atodlen 6 i:

- Egluro bod gorchymyn cydsyniad datblygu yn parhau mewn grym os caiff ei newid.
- Nodi'r dyddiad y mae gorchymyn sy'n newid neu'n dirymu yn dod i rym.
- Ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi gorchymyn, mewn modd y gwelant yn briodol, sy'n newid neu'n dirymu gorchymyn cydsyniad datblygu.

26. Mae is-adran (5) o Gov NC43 yn gwneud newid canlyniadol i hepgor is-adran (5) o adran 118 o Ddeddf 2008, sy'n ymwneud â heriau cyfreithiol. Mae hefyd yn diwygio is-adran (6) (b) o'r adran honno fel bod y dyddiad ar gyfer ffeilio ffurflen hawlio yn gysylltiedig â dyddiad cyhoeddi'r gorchymyn.

27. Mae is-adran (6) o Gov NC43 yn gwneud gwelliannau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall, gan gynnwys paragraff 8(3)(b)(i) o Atodlen 7 i Ddeddf Cymru 2017 ("Deddf 2017"). Roedd Deddf 2017 yn datganoli swyddogaethau cydsynio ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu trydan penodol i Weinidogion Cymru. NSIPs oedd y prosiectau hyn cyn hynny a'r Ysgrifennydd Gwladol a roddai'r gorchmynion cydsyniad datblygu ar eu cyfer. Mae Atodlen 7 i Ddeddf 2017 yn gwneud darpariaeth drosiannol er mwyn i Weinidogion Cymru allu delio â newidiadau i DCOs sydd bellach yn gyfrifoldeb Gweinidogion Cymru (DCOs etifeddol). Mae'r broses ar gyfer gwneud newidiadau wedi'i nodi yn Neddf 2008, fel y cafodd ei newid gan baragraff 8 o Atodlen 7 i Ddeddf 2017.

28. Mae Gov NC43(6)(d) yn diwygio Atodlen 7 i Ddeddf 2017 o ganlyniad i'r newidiadau hyn a hepgor paragraff 2 o Atodlen 6 i Ddeddf 2008.

29. Er bod y swyddogaeth o benderfynu ar DCOs wedi'i gadw yn ôl, byddai'r gwelliannau a gynigir gan welliant Gov NC43 yn rhoi, dileu neu'n newid swyddogaethau Gweinidogion Cymru wrth benderfynu ar unrhyw DCOs etifeddol mewn meysydd nad ydynt wedi'u datganoli. Felly, rwy'n ystyried y bydd y gwelliannau yn sbarduno'r broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol ac y bydd angen cydsyniad y Senedd.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

30. Ysgrifennodd Mathew Pennycook AS, y Gweinidog Gwladol dros Dai a Chynllunio, ataf ar 2 Mai 2025 i roi gwybod am farn Llywodraeth y DU ynghylch yr angen am gydsyniad y Senedd mewn perthynas â'r mesurau ychwanegol a ychwanegwyd at Ran 1 o'r Bil. Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod y darpariaethau, ac eithrio Gov NC43 yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl ac felly nid yw'r broses cydsyniad deddfwriaethol yn berthnasol.

31. Fodd bynnag, fel yr esbonnir yn y paragraffau uchod, rwyf o'r farn mai'r ddadl gryfaf yw bod gwelliannau Gov NC43, Gov NC44 a Gov NC45 yn gwneud darpariaeth sy'n effeithio ar swyddogaethau Awdurdodau Datganoledig Cymru a bod felly angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol.

**Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil Cynllunio a Seilwaith**

<u>Gov NC44 – "Applications for development consent: removal of certain pre-application requirements" - drafft newydd</u>

32. Er nad yw'r gwelliannau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, mae'r darpariaethau yn newid swyddogaethau Awdurdodau Datganoledig Cymru drwy ddileu'r gofyn i ymgynghori cyn ymgeisio a nodir ar hyn o bryd mewn ystod o adrannau yn Neddf 2008. Ar hyn o bryd mae'r adrannau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n bwriadu

gwneud cais am gydsyniad datblygu ymgynghori â phobl benodol am y cais arfaethedig, gan gynnwys cyrff rhagnodedig, awdurdodau lleol, y gymuned leol a phobl sydd â budd yn y tir dan sylw.

33. Bydd dirymu adrannau 42, 43 a 47 (NC44(a), (b) ac (e)) yn effeithio'n uniongyrchol ar swyddogaethau Gweinidogion Cymru ac Awdurdodau Datganoledig Cymru, ac felly mae'r diwygiadau arfaethedig yn dod o fewn cwmpas Rheol Sefydlog 29.

Gov NC45 – "Applications for development consent: changes related to section (*Applications for development consent: removal of certain pre-application requirements*)" - drafftio newydd

34. Er nad yw'r diwygiadau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, unwaith eto maent yn newid swyddogaethau Awdurdodau Datganoledig Cymru o ganlyniad i ddileu'r gofyn i ymgynghori cyn ymgeisio yn Neddf 2008 drwy fewnosod gofyniad newydd ar ymgeiswyr i hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol lletyol, a fydd yng Nghymru yn cynnwys cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, am gais a gynigir am gydsyniad datblygu. Gan fod y gwelliannau hyn yn effeithio ar swyddogaethau Awdurdodau Datganoledig Cymru, maent yn dod o fewn cwmpas Rheol Sefydlog 29.

35. Mae cymal newydd Gov NC45 yn dileu'r gofynion statudol i ymgynghori cyn ymgeisio a rhoi yn eu lle ddyletswydd debyg a gwmpesir gan ganllawiau y mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol eu cyhoeddi. Yn gyffredinol, yn fy marn i, mae ymgynghori cynnar, ystyrlon ac adeiladol yn arwain at geisiadau o ansawdd uchel. Yng ngoleuni'r gwelliannau arfaethedig hyn, byddaf yn ceisio sicrwydd gan Lywodraeth y DU y bydd y gyfundrefn NSIP yn pwysleisio gweithredu rhag blaen ac ar ymgysylltu ac ymgynghori cynnar, ystyrlon ac adeiladol o ansawdd uchel. Adlewyrchir hyn yn y canllawiau a gyhoeddir.

Gov NC43 - "*Changes to, and revocation of development consent orders"* cymal newydd

36. Er nad yw'r gwelliant hwn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, mae'r gwelliannau a gynigir yn newid swyddogaethau Gweinidogion Cymru o ran eu gallu i benderfynu ar newidiadau i DCOs sy'n ymwneud â gorsafoedd cynhyrchu ynni datganoledig. Felly, yn fy marn i, mae'r gwelliant yn dod o fewn cwmpas Rheol Sefydlog 29.

37. Gallai'r gwelliannau hyn effeithio ar nifer fach o brosiectau yng Nghymru. Fodd bynnag, gan fod y cynnig yn darparu proses symlach ar gyfer newid DCOs, bydd y darpariaethau yn dod â manteision posibl i randdeiliaid. Byddai'r newid hwn yn cyd-fynd â'n hymdrech gyffredinol i ddarparu proses fodern ar gyfer cydsynio seilwaith.

**Goblygiadau ariannol**

38. Mae'r asesiad ariannol o'r Bil yn dod i'r casgliad, 'dros y cyfnod arfarnu deng mlynedd, yn unol â gwerthoedd heddiw (prisiau 2025, blwyddyn sylfaen 2026), amcangyfrifir y ceir cyfanswm o £5.2 biliwn o fuddion yn sgil y Bil, a chyfanswm o £2.0 biliwn o gostau. Mae hyn yn golygu effaith gadarnhaol gyffredinol ar gymdeithas sy'n cyfateb i £3.2 biliwn'.

**Casgliad**

39. Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil DU hwn.

40. Mewn perthynas â chymalau newydd Gov NC44 a Gov NC45, mae'n briodol ymdrin â'r rhain mewn Bil DU gan fod hyn yn ymwneud â phroses cydsynio y DU ar gyfer seilwaith ar raddfa fawr. Mae'r LCM atodol hwn wedi'i osod gan fod y gwelliannau'n rhoi, dileu neu'n newid swyddogaethau cyrff cyhoeddus Cymreig yn y broses honno ac rwyf wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i ddeall effeithiau ymarferol y newid ar ein cyrff a'r cyhoedd. Rwy'n aros am ymateb Llywodraeth Cymru i'm sicrhau bod y canllawiau cysylltiedig yn annog gweithredu rhag blaen cyn y gallaf wneud argymhelliad ar gydsynio mewn perthynas â chymalau Gov NC44 a Gov NC45.

41. Ar gyfer cymal newydd Gov NC43, effaith y gwelliant yw rhoi, dileu neu newid swyddogaethau Gweinidogion Cymru o ran eu gallu i benderfynu ar newidiadau i DCOs sy'n ymwneud â gorsafoedd cynhyrchu ynni datganoledig. Gan fod y cydsyniadau hyn wedi'u rhoi o dan Ddeddf 2008, mae'r broses wedi'i chadw i Lywodraeth y DU wneud y gwelliannau. Hefyd, mae gwneud gwelliannau ar lefel y DU yn briodol a dim ond mewn Bil y DU y gellir gwneud hynny. Ar yr adeg hon, rwy'n argymell bod y Senedd yn cefnogi Gov NC43 ac yn rhoi ei chydsyniad iddo.

**Rebecca Evans AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**15 Mai 2025**